

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
14/05/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery

Wales Spatial Plan

Cynllun Gofodol Cymru

Q6 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on how the Wales spatial plan impacts on south-east Wales?
OAQ(3)0334(FPS)

C6 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae cynllun gofodol Cymru'n effeithio ar dde-ddwyrain Cymru?
OAQ(3)0334(FPS)

Andrew Davies: The Wales spatial plan has a key role in how south-east Wales develops over the next 20 years. It provides an important template for a networked city region, helping to sustain and improve its international competitiveness for the benefit of all. It helps us focus our resources to best effect.

Andrew Davies: Mae gan gynllun gofodol Cymru rôl allweddol i'w chwarae yn y ffordd y bydd y de-ddwyrain yn datblygu yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n enghraifft bwysig o ranbarth dinas rhwydweithiol, sy'n helpu i gynnal a gwella ei chystadleurwydd rhyngwladol er lles pawb. Mae'n ein cynorthwyo i ganolbwyntio ein hadnoddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau.

Rate of Improvement in Public Services

**Cyfradd Gwella Gwasanaethau
Cyhoeddus**

Q11 Alun Davies: Will the Minister detail the rate of improvement in public services over the last five years? OAQ(3)0341(FPS)

C11 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog roi manylion cyfradd gwella gwasanaethau cyhoeddus dros y pum mlynedd diwethaf?
OAQ(3)0341(FPS)

Andrew Davies: As an example, waiting times in Wales have fallen dramatically over the last five years and, by December 2009, nobody in Wales should wait longer than 26 weeks from primary care referral to final treatment, including any waits for diagnostic

Andrew Davies: Er mwyn cynnig enghraifft yn hyn o beth, mae amserau aros yng Nghymru wedi gostwng yn ddramatig yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Erbyn mis Rhagfyr 2009, ni ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod aros mwy na 26 wythnos

tests or therapy services.

rhwng ei atgyfeirio i gael gofal sylfaenol a'r driniaeth derfynol, gan gynnwys unrhyw gyfnodau aros am brofion diagnostig neu wasanaethau therapi.

Improving Procurement Processes

Gwella Prosesau Caffael

Q13 Darren Millar: Will the Minister make a statement on improving the procurement processes of public services in Wales? OAQ(3)0338(FPS)

C13 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella prosesau caffael gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)0338(FPS)

Andrew Davies: The Welsh Assembly Government's Value Wales, is working with organisations across Wales, both public and private, to improve procurement processes. Initiatives such as the all-Wales sourcing plan, procurement route planner and the xchangewales programme all aim to provide innovative and robust tools and approaches to procurement.

Andrew Davies: Mae rhaglen Gwerth Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru, yn rhai cyhoeddus a phreifat, i wella prosesau caffael. Nod mentrau fel cynllun cyrchu Cymru gyfan, y canllaw cynllunio caffael a rhaglen cyfnewidcymru oll yw darparu arfau a dulliau arloesol a chadarn ar gyfer caffael.

Key Considerations for Improving Public Service Delivery

Prif Ystyriaethau ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn Well

Q14 William Graham: What are the Minister's key considerations for improving public service delivery in Wales? OAQ(3)0299(FPS)

C14 William Graham: Beth yw prif ystyriaethau'r Gweinidog ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn well yng Nghymru? OAQ(3)0299(FPS)

Andrew Davies: My key considerations are that public services are designed and delivered in ways that put the citizen at the centre, that they are accessible, accountable, of consistently high quality across Wales, that they are innovative, ambitious and continually improving, feel seamless when delivered across organisations and use available resources imaginatively and cost-effectively.

Andrew Davies: Dyma yw fy mhrif ystyriaethau: bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, eu bod yn hygyrch, yn atebol, o ansawdd uchel cyson ledled Cymru, yn arloesol, yn uchelgeisiol ac yn gwella'n barhaol, yn ymddangos yn ddi-dor o'u cyflenwi ar draws sefydliadau, ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael mewn ffyrdd llawn dychymyg a chost-effeithiol.

Cyflenwi Gwasanaethau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

Delivery of Services in Mid and West Wales

C15 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau yn y sector cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(3)0326(FPS)

Q15 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on the delivery of services within the public sector in Mid and West Wales? OAQ(3)0326(FPS)

Andrew Davies: Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn yr un modd â phob rhan arall o Gymru, yr ydym yn gweithio i sicrhau bod gennym wasanaethau cyhoeddus sy'n perfformio'n dda, sy'n effeithlon, yn

Andrew Davies: In Mid and West Wales, as in every other part of Wales, we are working to ensure that we have public services that are high performing, efficient, ambitious and innovative, represent good value for money,

uchelgeisiol ac yn arloesol, sy'n cynnig gwerth da am arian, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ym mhopeth a wneir ganddynt, ac sy'n cydweithio'n dda.

put the citizen at the centre of all that they do and work together well.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Making Merthyr Tydfil a University Town

Q3 Huw Lewis: Will the Minister provide an update on the Welsh Assembly Government's commitment to making Merthyr Tydfil a university town? OAQ(3)0432(CEL)

Jane Hutt: I announced to the Enterprise and Learning Committee last month that I was setting up a ministerial task and finish group to take forward our commitment to transforming higher level skills in the Heads of the Valleys. That will include our commitment to the towns of Merthyr Tydfil and Ebbw Vale.

Gwneud Merthyr Tudful yn Dref Prifysgol

C3 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud Merthyr Tudful yn dref prifysgol? OAQ(3)0432(CEL)

Jane Hutt: Cyhoeddais fis diwethaf fy mod yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol i ddatblygu ein hymrwymiad i weddnewid sgiliau lefel uwch ym Mlaenau'r Cymoedd. Bydd hynny'n cynnwys ein hymrwymiad i wneud Merthyr Tudful yn dref Prifysgol.

Performance Levels

Q10 Darren Millar: Will the Minister make a statement about the performance levels of schools in Wales? OAQ(3)0385(CEL)

Jane Hutt: Headline figures for pass rates for GCSE, A-level and AS-level show continued high pass rates. Since 1999, there have been improvements at key stages 2 and 3 of up to 12 percentage points.

Lefelau Perfformiad

C10 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau perfformiad ysgolion yng Nghymru? OAQ(3)0385(CEL)

Jane Hutt: Mae'r prif ffigurau ar gyfer y cyfraddau pasio o ran TGAU, lefel A a lefel AS yn dangos bod nifer y canlyniadau llwyddiannus yn parhau'n uchel. Ers 1999, cafwyd gwelliannau o hyd at 12 y cant yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

The Education Budget

Q11 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on her priorities for the education budget? OAQ(3)0433(CEL)

Jane Hutt: My priorities for education in Wales are outlined in 'One Wales'. I want to ensure that all learners have access to high-quality provision and are supported to learn. Trained practitioners deliver a diverse curriculum, delivering the skills, knowledge and research that Wales and its people need to succeed.

Cyllideb Addysg

C11 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb addysg? OAQ(3)0433(CEL)

Jane Hutt: Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru wedi'u hamlinellu yn 'Cymru'n Un'. Fy nod yw sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at ddarpariaeth uchel ei hansawdd, a'u bod yn cael eu cefnogi i ddysgu, gydag ymarferwyr hyfforddedig yn cynnig cwricwlwm amrywiol ac yn darparu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymchwil y mae eu hangen ar Gymru a'i phobl i lwyddo.

Addysg Cyfrwng Cymraeg

C12 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer datblygu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sector addysg uwch? OAQ(3)0423(CEL)

Jane Hutt: Mae'r rhwydwaith addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn datblygu fframwaith cydweithredol, strategol a chynaliadwy ar gyfer dwyieithrwydd drwy gydol y sector, yn unol â'n hymrwymiad yn 'Cymru'n Un'. Fel rhan o hynny, bydd ysgoloriaethau ôl-raddedig a chymrodoriaethau addysgu cyfrwng Cymraeg yn rhoi mwy o gyfle i fyfyrwyr ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Power of School Governors

Q13 Leanne Wood: What discussions has the Minister had regarding the power of school governors? OAQ(3)0410(CEL)

Jane Hutt: I have not had any discussions regarding the power of school governors.

Development of Teachers

Q14 Val Lloyd: What is the Welsh Assembly Government doing to promote the development of teachers in Wales? OAQ(3)0404(CEL)

Jane Hutt: The development of teachers is supported during their careers through induction and early professional development, individual development opportunities, middle management leadership and headship training. Our focus on learning and teaching pedagogy will provide extra support to develop teachers' practice aligned to the new school effectiveness framework.

GCSE in Mathematics

Q15 David Melding: In 2007, what percentage of pupils in Wales received a GCSE at grade C or above in mathematics? OAQ(3)0444(CEL)

Jane Hutt: The percentage of pupils aged 15

Welsh-medium Education

Q12 Alun Ffred Jones: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's plans to develop Welsh-medium education in the higher education sector? OAQ(3)0423(CEL)

Jane Hutt: The Welsh-medium higher education network is developing a collaborative, strategic and sustainable framework for bilingualism throughout the sector, in line with our 'One Wales' commitment. Within that, Welsh-medium postgraduate scholarships and teaching fellowships will increase opportunities for students to learn through the medium of Welsh.

Pŵer Llywodraethwyr Ysgol

C13 Leanne Wood: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch pŵer llywodraethwyr ysgol? OAQ(3)0410(CEL)

Jane Hutt: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ynghylch pŵer llywodraethwyr ysgol.

Datblygiad Athrawon

C14 Val Lloyd: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i hybu datblygiad athrawon yng Nghymru? OAQ(3)0404(CEL)

Jane Hutt: Cefnogir datblygiad athrawon yn ystod eu gyrfaedd trwy sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar, cyfleoedd i unigolion ddatblygu, arweiniad gan reolwyr canol a hyfforddiant i brifathrawon. Bydd ein ffocws ar ddysgu ac addysgu addysgeg yn darparu cymorth ychwanegol i ddatblygu arfer athrawon, wedi'i alinio â'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion newydd.

TGAU mewn Mathemateg

C15 David Melding: Yn 2007, pa ganran o ddisgyblion yng Nghymru a gafodd radd C neu'n uwch mewn mathemateg TGAU? OAQ(3)0444(CEL)

Jane Hutt: Yn 2006-07, bu rhywfaint o

achieving a GCSE grade A* to C in mathematics improved slightly in 2006-07, reaching 50 per cent.

gynnydd yng nghanran y disgyblion 15 oed a lwyddodd i gael gradd TGAU A* i C mewn mathemateg, gan gyrraedd 50 y cant.